# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 1

GWELLA LLYWODRAETH LEOL

*Gweinidogion Cymru*

### 31 Pŵer Gweinidogion Cymru i addasu deddfiadau a rhoi pwerau newydd

(1) Os bydd Gweinidogion Cymru yn meddwl bod deddfiad yn atal neu'n rhwystro awdurdodau gwella Cymreig rhag cydymffurfio â gofynion y Rhan hon, caniateir iddynt drwy orchymyn wneud darpariaeth sy'n addasu neu'n eithrio'r modd y mae'r deddfiad yn gymwys mewn perthynas â'r canlynol—

- (a) pob awdurdod gwella Cymreig;
- (b) awdurdodau gwella Cymreig penodol; neu
- (c) disgrifiadau penodol o awdurdod gwella Cymreig.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth sy'n rhoi—

- (a) i bob awdurdod gwella Cymreig;
- (b) i awdurdodau gwella Cymreig penodol; neu
- (c) i ddisgrifiadau penodol o awdurdod gwella Cymreig,

unrhyw bŵer y maent yn credu ei fod yn angenrheidiol neu'n hwylus i ganiatáu neu hwyluso cydymffurfedd â gofynion y Rhan hon.

(3) Caiff gorchymyn o dan yr adran hon—

- (a) gosod amodau ar y modd y mae unrhyw bŵer a roddir gan y gorchymyn (gan gynnwys amodau am ymgynghori neu gymeradwyo) yn cael ei arfer;
- (b) diwygio deddfiad.

(4) Wrth arfer pŵer a roddir o dan is-adran (2), rhaid i awdurdod gwella Cymreig roi sylw i unrhyw ganllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

(5) Yn yr adran hon mae "deddfiad" yn cynnwys is-ddeddfwriaeth (o fewn ystyr adran 21 o Ddeddf Ddehongli 1978).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 31 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 53(2)**

**I2** A. 31 mewn grym ar 17.7.2009 gan O.S. 2009/1796, **ergl. 2(k)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, Adran 31 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 29 Gorffennaf 2023. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to the whole Measure associated Parts and Chapters:**

– Measure repealed by 2021 asc 1 s. 170(1)

Whole provisions yet to be inserted into this Measure (including any effects on those provisions):

– Sch. para. 10 omitted by 2018 anaw 2 Sch. 1 para. 16